## Ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Y Rhigos gan drosglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun

**Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.**

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion. Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Y Rhigos gan drosglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun.

### Crynodeb / Casgliad

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau ar gyfer disgyblion yn yr ardal, o leiaf.

### Disgrifiad a manteision

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig. Mae'n amlinellu'n gryf fanteision niferus cau Ysgol Gynradd Y Rhigos, gan drosglwyddo'r holl ddisgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun. Cynigir y bydd disgyblion sydd yn nalgylch Ysgol Gynradd Y Rhigos yn mynd yn hytrach i Ysgol Gynradd Hirwaun, lle mae adeilad newydd sbon yr 21ain Ganrif a chyfleusterau newydd. Byddai dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun yn ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd Y Rhigos, ac felly byddai'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed y mae angen addysg Saesneg arnynt yn y ddwy gymuned.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu disgrifiad priodol o fanwl o'r cynnig. Mae hyn yn cynnwys cefndir i'r cynnig ac amcan o amserlen ar gyfer gweithdrefnau statudol. Mae'n cynnig y bydd Ysgol Gynradd Y Rhigos yn cau gan arwain at ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn Medi 2024, fan bellaf.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir ac yn deg y manteision ac anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol, a sut byddant yn rheoli unrhyw risg. Un o'r prif fanteision y ceir manylion amdani yn y cynnig yw y bydd disgyblion Ysgol Gynradd Y Rhigos yn elwa ar ysgol gynradd newydd sbon a chwbl hygyrch yn Hirwaun, a fyddai'n darparu amgylchedd dysgu gwell gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf. Tybir

bod y rhan fwyaf o'r risgiau yn rhai effaith isel. Tybir mai un risg a fydd yn cael effaith ganolig ar ôl gweithredu'r cynnig yw'r ffaith na fydd staff Ysgol Gynradd bresennol Y Rhigos efallai'n cael eu cadw.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried pedwar opsiwn arall, gan gynnwys cynnal y sefyllfa bresennol. Mae'n rhestru manteision ac anfanteision pob opsiwn, ac mae'n ymddangos bod y rhain yn deg a rhesymol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'r cynigiwr yn amlinellu'r ffaith fod yr awdurdod lleol wedi arfer pwerau diamod a bennwyd iddo o dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i drefnu darpariaeth fwy hael ar gyfer disgyblion. Mae'r maen prawf cymhwyster ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion yn eu hysgol addas agosaf wedi'i osod yn 1.5 milltir, yn lle 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y mesur. Darperir hyn ar gyfer disgyblion sy'n bodloni'r maen prawf cymhwyster 1.5 milltir o ddechrau'r cyfnod sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu trydydd pen-blwydd), sy'n ymddangos yn rhesymol.

Mae'r awdurdod lleol yn ddefnyddiol wedi dangos effaith y cynnig ar leoedd dros ben. Mae'r niferoedd disgyblion rhagamcanol yn Ysgol Gynradd Y Rhigos dros y pum blwyddyn academaidd nesaf ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn disgyn yn gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 51 disgybl yn 2023 i nifer ragamcanol o 36 disgybl yn 2028. Mae'r niferoedd disgyblion rhagamcanol yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn dangos bod capasiti i holl ddisgyblion presennol a darpar ddisgyblion Ysgol Gynradd Rhigos allu mynychu.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth fanwl i effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol a'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Nod yr awdurdod lleol yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol i hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion y tu mewn i ysgolion, a'r tu allan. Bydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn parhau i gael ei hannog a'i chefnogi i wneud hyn trwy gyflawni Siarter y Gymraeg, 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig. Mae'n datgan nad oes angen buddsoddi cyfalaf ychwanegol gan fod Ysgol Gynradd Hirwaun yn adeilad newydd. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn derbyn cynnydd ar eu fformiwla gyllido o ganlyniad i'r disgyblion ychwanegol ar y gofrestr. Yn ychwanegol, mae dyluniad a ffabrig yr adeilad modern yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn fwy effeithlon o ran ynni, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gostau cynnal yr ysgol, yn ogystal â chyflawni manteision o ran cynaliadwyedd a lleihau allyriadau carbon.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol, sy'n cynnwys deilliannau adroddiad arolygiad diwethaf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol. Arolygwyd Ysgol Gynradd Y Rhigos gan Estyn ym mis Chwefror 2019 a barnwyd bod y deilliannau yn y pum maes arolygu yn dda. Arolygwyd Ysgol Gynradd Hirwaun gan Estyn yn 2018. Barnwyd bod y maes gofal, cymorth ac arweiniad yn dda, roedd tri maes arolygu arall yn ddigonol, tra roedd addysgu a phrofiadau dysgu yn anfoddhaol. O ganlyniad i'r arolygiad yn 2018, gosodwyd Ysgol Gynradd Hirwaun gan Estyn yn y categori 'Gwelliant Sylweddol'. Wrth ymateb i ganlyniad yr arolygiad craidd, roedd yn ofynnol i Ysgol Gynradd Hirwaun lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion, yn amodol ar adolygiad gan Estyn. Ym mis Gorffennaf 2019, cafodd Ysgol Gynradd Hirwaun ei thynnu gan Estyn oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen 'Gwelliant Sylweddol'.

Mae'r cynnig hefyd wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg, gan gynnwys adrannau ar wahân ar ddeilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Er bod yr adrannau ar ddeilliannau a darpariaeth yn ymddangos yn deg a rhesymol, mae'r adran ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhy generig ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon penodol ar oblygiadau'r cynnig i arweinwyr yn y ddwy ysgol. Mae'r cynnig yn nodi y byddai trosglwyddo disgyblion o Ysgol Gynradd Y Rhigos i adeilad newydd Ysgol Hirwaun yn darparu gofod helaeth yn yr awyr agored, gan gynnwys gofod gwyrdd, i ddisgyblion ddysgu a chwarae. Mae'n rhagdybio'n deg y byddai lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn elwa ar ofod awyr agored amrywiol a difyr. Mae'n nodi ymhellach y byddai adeilad ysgol sy'n addas at ei ddiben yn helpu creu amgylchedd dysgu gwell. Mae'r cynigiwr yn nodi bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyflwyno'r cwricwlwm yn yr ysgol, os bydd yn mynd yn ei flaen.

Mae'r cynnig yn ystyried effaith y cynnig ar grwpiau bregus, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n nodi y bydd symud disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun o'r Rhigos yn arwain at fwy o gapasiti a gofod ar gyfer ymyrraeth a chymorth ag anghenion ychwanegol. O ran hygyrchedd, mae Ysgol Hirwaun yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r cynnig yn rhoi disgrifiad manwl o effaith y cynnig ar y gymuned. Mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys effaith gadarnhaol cyfleusterau ychwanegol ar safle Hirwaun at ddefnydd cymunedol ac nad yw safle presennol Y Rhigos yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r cynnig hefyd yn ystyried y cymorth 'y tu allan i oriau' ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, bydd clwb brecwast a gofal preifat ar ôl yr ysgol yn cael eu darparu ar y safle newydd os caiff y cynnig ei roi ar waith.